CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 10fed Chwefror 2020**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 10th February 2020**

**Yn Bresennol/Present**:
Cyng/Cllrs Tom Cowcher, Eileen Curry, Douglas Davies, Keith Evans, Peter Evans, Andrew Howell, Gethin Jones, Abby Reid
**Personol/Personal**

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies for absence were received from Beth Davies, Sue Lloyd, Mike Hotson, Peter Davies a/and Llŷr Jones.
   O ganlyniad i ymrwymiadau teuluol a gwaith, penderfynwyd esgusodi Cyng Llŷr Jones o'r cyfarfodydd tan mis Mai./Due to family and work commitments it was decided to excuse Cllr Llyr Jones from the meetings until May.
2. **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Mynegwyd budd gan Gyng Abby Reid mewn perthynas â'r Cais Ariannol gan Badlwyr Llandysul./ Declerations of interest was shown for the Funding Application from Llandysul Paddlers from Cllr Abby Reid.
3. **Cofnodion/Minutes** Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr ar ôl newid y geiriad yn y fersiwn Saesneg o Free seat i Ward Vacancy neu Casual Vacancy ac y dylai'r pennawd am y praesept gynnwys y ffigurau go iawn, sef £45497.19./ Minutes of monthly meeting held on 11 November were approved. The minutes of 13 January were approved following changing that instead of Free seat it should read Ward Vacancy or Casual Vacancy and that the precept heading should have the actual figures which would be £45497.19.

.

**Materion yn Codi:-**

**Cyfarfod mis Tachwedd**

**Goleuadau ger y Pwll Nofio**

Penderfynwyd y dylai'r Clerc gysylltu ag SSE eto er mwyn holi pryd fyddai'r gwaith yn cael ei wneud.

**Gorsafoedd Pleidleisio**

Hysbyswyd y Cynghorwyr gan Gyng Keith Evans bod newidiadau wedi cael eu gwneud, ond na fyddent yn effeithio ar Gyngor Cymuned Llandysul.

**Cyfarfod ym mis Ionawr**

**5G**

Yn dilyn trafodaeth am y cyflwyniad a gafwyd fis diwethaf gan Frances Woodley a Lisette Chesshire ynghylch cyflwyno 5G, penderfynwyd na fyddai'r Cyngor Cymuned yn gallu dylanwadu ar unrhyw benderfyniad oherwydd y byddai hwn yn cael ei wneud lawer yn uwch na lefel y Cyngor. Penderfynwyd diolch iddynt am fynychu ac am eu cyflwyniad.

**Cofeb Ryfel Capel Dewi**

Roedd y Clerc wedi cael dyfynbris gan Elliott Ryder Conservation er mwyn diogelu'r gofeb ryfel yng Nghapel Dewi, am y swm o £506.24. Penderfynwyd y dylai'r clerc ofyn iddynt wneud y gwaith.

**Goleuadau Nadolig**

Hysbyswyd y Cynghorwyr gan Gyng Keith Evans nad yw'r is-bwyllgor ar gyfer y Goleuadau Nadolig wedi cyfarfod eto gan ei fod yn casglu rhagor o wybodaeth am y cefndir cyn iddynt gyfarfod.

**Materion y mae gofyn gwneud Penderfyniad amdanynt**

**4) Ceisiadau Ariannol:-**

**Eisteddfod Rhydlewis** – Symudwyd y cais ymlaen i gyfarfod mis nesaf.

**Padlwyr Llandysul** – Gofynnwyd am swm o £2000 er mwyn cynorthwyo'r Padlwyr i brynu bws mini newydd ar gyfer y Padlwyr ac at ddefnydd y Gymuned. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano, ac ysgrifennwyd siec.

**Matters Arising:-**

**November Meeting**

**Lights by Swimming Pool**

It was decided that the Clerk follow the matter up with SSE to see when the work would be done.

**Polling Stations**

Cllr Keith Evans informed the Councillors that changes had been made but would not affect Llandysul Community Council.

**January Meeting**

**5G**

Following a discussion on last months presentation by Frances Woodley and Lisette Chesshire with regards to the 5G roll out it was decided that the Community Council would not be able to influence any decision as this would be coming much higher up than the Councils level. It was decided to thank them for attending and for their presentation.

**War Memorial Capel Dewi**

The Clerk had received a quotation from Elliott Ryder Conservation for preservation of the war memorial at Capel Dewi for £506.24. It was decided that the clerk request the work to be done.

**Christmas Lights**

Cllr Keith Evans informed the Councillors that the sub-committee for the Christmas Lights had not yet met as he was gathering more background information before they met.

**Matters Requiring Decisions**

**4) Funding Applications:-**

**Rhydlewis Eisteddfod** – Application forwarded to next month’s meeting.

**Llandysul Paddlers** – A request for £2000 was asked for in order to assist the Paddlers to purchase a new mini bus for The Paddlers and Community use. It was decided to award the requested amount and a cheque was written accordingly.

A request for a donation was received from The Garthen and Ceredigion Sheepdog Trials the clerk to send on the relevant application form.

Cafwyd cais am rodd gan Y Garthen a Threialon Cŵn Defaid Ceredigion a bydd y clerc yn anfon y ffurflen gais berthnasol atynt.

**5) Materion i'w Trafod**

**<u>Parc Chwarae Llandysul</u>**

Roedd y Clerc a Chyng Abby Reid wedi cael cyfarfod gyda Rhodri Thomas er mwyn dangos yr eitemau y mae angen eu trwsio.
Roedd Cyng Abby Reid wedi paratoi cynllun cynnal a chadw pum mlynedd ar gyfer y lle chwarae, a dderbyniwyd mewn egwyddor. Penderfynwyd gofyn am ddyfynbrisiau er mwyn paentio rhywfaint o'r gwaith coed, y byddai'n rhaid iddo fod yn baent di-blwm.
Roedd Cyng Abby Reid wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer offer chwarae newydd yn y parc. Un am gylchdröwr 4 ffordd Pappset Polka am £5088 ac ail ddewis, sef pont Siglo Lappset Flora am £3813. Roedd Cyng Abby Reid yn teimlo mai'r bont siglo fyddai'r dewis gorau, a'i bod yn llenwi ffurflen gais am grant ar hyn o bryd er mwyn gweld a fyddem yn gallu sicrhau cyllid allanol.

**<u>Sedd Wag</u>**

Nid oedd unrhyw un wedi mynegi diddordeb yn y Sedd Wag. Penderfynwyd y dylai'r Cynghorwyr holi pobl a fyddai ganddynt ddiddordeb, gan anfon llythyr at y clerc.

**<u>Holiadur Tai Ceredigion</u>**
Roedd y clerc wedi cael holiadur gan y Swyddog Galluogi Tai Gwledig ynghylch tai yn Llandysul, a thai fforddiadwy yn arbennig. Anfonwyd copi at yr holl aelodau.

**<u>Cynnal a chadw</u>**
Roedd y clerc wedi anfon copi o'r dogfennau tendro ymlaen at yr holl aelodau. Penderfynwyd y dylid cynnwys hysbysiad ar wefan y Cyngor a hefyd, ar y dudalen facebook.

**Materion Wardiau**

<u>Swyddfa Archwilio Cymru</u>

**5) Matters for Discussion**

**<u>Llandysul Park Play area</u>**

The Clerk and Cllr Abby Reid had met with Rhodri Thomas to show the items that needed repairing.
Cllr Abby Reid had prepared a five year maintenance plan for the play area which was accepted in principle. It was decided to ask for prices for painting some of the woodwork which would have to be lead free.
Cllr Abby Reid had received prices for a new play apparatus in the park. One for a Pappset Polka 4 way rotator for £5088 and second option for a Lappset Flora Wobbling bridge for £3813. Cllr Abby Reid felt that the wobbling bridge would be the best option and that she was in the process of completing a grant application form to see if we could obtain external funding.

**<u>Casual Vacancy</u>**

No one had shown an interest in the Casual Vacancy. It was decided that Cllr ask people if they would be interested and sent a letter to the clerk.

**<u>Tai Ceredigion Questionnaire</u>**
The clerk had received a questionnaire from the Rural Housing Enabler with regards to housing in Llandysul and especially affordable housing. A copy had been sent to all members.

**<u>Maintenance</u>**
The clerk had forwarded a copy of the tender documents to all members. It was decided that a notice should be put on the Councils website and also on the facebook page.

**Ward Matters**
<u>Audit Wales</u>
Cllr Keith Evans wished to share with the

Roedd Cyng Keith Evans yn dymuno rhannu gyda'r Cynghorwyr bod 66% o Gynghorau Cymuned yn methu cyflwyno eu cyfrifon i'r Swyddfa Archwilio. Roedd yn dymuno llongyfarch y clerc am gyflwyno Cyfrifon Cyngor Cymuned Llandysul bob blwyddyn.

**Llandysul**

**Eisteddfod 2020**

Hysbyswyd y Cynghorwyr gan Gyng Keith Evans o de Prynhawn i'w gynnal yn Ysgol Tre-groes, a ohiriwyd oherwydd angladd. Nid oes dyddiad newydd wedi cael ei bennu ond byddai'n rhoi unrhyw wybodaeth ddilynol iddynt.

**Banc bwyd**
Rhannodd Cyng Abby Reid newyddion cyffrous gyda'r Cynghorwyr, sef y byddai 'Prosiect Pum Mil’ yn ffilmio gyda'r banc bwyd.

**Goryrru**
Roedd Cyng Andrew Howell yn teimlo'n siomedig nad oedd yr heddlu wedi bod yn mynychu ein cyfarfodydd misol, oherwydd yr hoffai godi problem goryrru ar y ffordd waelod yn Llandysul, wrth i bobl yrru yn gyflymach nag 20 milltir yr awr yno. Bydd y clerc yn cysylltu â Heddlu Dyfed Powys.

**Gwasanaeth y tu allan i Oriau**
Mynegodd Cyng Keith Evans ei siom am y ffaith y byddai Llandysul yn colli ei gwasanaeth meddygon y tu allan i oriau gan mai Llandysul oedd un o'r ardaloedd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth leiaf.

**Diffibrilwyr**
Roedd pobl niferus wedi prynu diffibrilwyr yn eu cymunedau. Penderfynwyd y dylai'r clerc ddarganfod a fyddai modd i rywun eu gwasanaethu, a faint y byddai hyn yn ei gostio, gan holi hefyd a oes rhywun yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd.

**Penwythnos Garddio**
Atgoffwyd y Cynghorwyr o'r Penwythnos Garddio a gynhelir yn Llandysul dros y penwythnos i ddod.

Councillors that 66% of Community Councils fail with presenting their accounts to the Audit Office. He wished to congratulate the clerk for presenting Llandysul Community Council Accounts on a Yearly Basis.

**Llandysul**

**Eisteddfod 2020**

Cllr Keith Evans informed the Counillors of Afternoon tea to be held at Tregroes School had been postponed due to a funeral. No other date had been decided but would keep them informed.

**Foodbank**
Cllr Abby Reid shared some exciting news with the Councillors that’ Prosiect Pum Mil’ would be filming at the foodbank.

**Speed**
Cllr Andrew Howell felt disappointed that the police had not been attending out monthly meeting as he would like to raise the issue of speeding on the bottom road in Llandysul with people driving in excess of 20 miles an hour. The clerk to contact Dyfed Powys Police.

**Out of Hours**
Cllr Keith Evans showed his disappointment as Llandysul would be losing their out of hours doctors service as Llandysul was one of the areas that made least use of the service.

**Defibrillators**
Numerous people had purchased defibrillators in their communities. It was decided that the clerk find out if someone could and what the cost would be of servicing them and also check if someone was servicing them.

**Gardening Weekend**
Councillors were reminded of the Gardening Weekend to be held in Llandysul over the coming weekend.

**Capel Dewi**

Following another incident of large lorries coming down passed the old school in Capel

**Capel Dewi**

Yn dilyn achos arall lle'r oedd lorïau mawr wedi bod yn dod i lawr heibio i'r hen ysgol yng Nghapel Dewi, a heb fod yn gallu mynd o gwmpas y tro mawr, 'Tro Fedwen', penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i weld a fyddai modd gosod arwyddion rhybudd yno megis 'peidiwch dilyn eich teclyn llywio â lloeren os ydych mewn cerbyd mawr'. Byddai'r tirfeddiannwr sy'n berchen ar y tir ger y tro yn fodlon rhoi rhywfaint o dir i'r Cyngor Sir er mwyn tacluso'r tro, ar yr amod y byddai ganddo fynediad taclus i'w sied.

Mae'r clawdd ar y Ffordd rhwng Capel Dewi a Rhydowen rhwng Penwern a Heddfan bolio allan i'r ffordd, ac yn ei gwneud yn beryglus i yrwyr.

**Iechyd Meddwl**
Roedd Cyng Tom Cowcher wedi mynychu digwyddiad yng Ngwesty Emlyn ynghylch iechyd meddwl. Roedd yn dymuno llongyfarch y bobl ifanc am drefnu noson dda i godi arian.

**Pont-siân**
**Biniau Halen**
Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir gan ofyn a fyddai modd iddynt lenwi biniau halen y Cyngor Cymuned.

**Pren-gwyn**
Nid oedd arwydd Maesymeillion wedi cael ei osod o hyd ar sgwâr Pren-gwyn. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

6) **Cydnabod derbyn rhodd**

Calon Tysul

7) **Gohebiaeth**
Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 10 Ionawr a 9 Chwefror. Cafwyd y canlynol gan

Dewi and not being able to negotiate the large bend' Tro Fedwen' it was decided that the clerk contact the County Council if warning signs could be put up like 'please don't follow your sat nav if you are a large vehicle'.
The land owner where the bend is would be willing to give the County Council some land in order to tidy up the bend as long as he would have tidy access to his shed.

The hedge on the Road between Capel Dewi and Rhydowen between Penwern and Heddfan is bulging on the road making it dangerous for drivers.

**Mental Health**
Cllr Tom Cowcher had attended an event in Emlyn Arms with regard to mental health. He wished to congratulate the young people for arranging a well attended fundraising evening.

**Pontsian**
**Salt Bins**
It was decided that the clerk contact the County Council to ask them if they could replenish the salt in the Community Councils salt bins.

**Prengwyn**
The Maesymeillion sign was still not erected on Prengwyn square. The clerk to contact the County Council.

6) **Acknowledge receipt of donation**

Calon Tysul

**Correspondence**
Emails –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 10$^{th}$ January – 9$^{th}$ February 2020 was tabled.
The following were received from

**OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct** –

The Clerk Magazine and Clerk and Councils Direct was received.

**UlC/SLCC/ Clerks and Councils Direct** –

Cafwyd Cylchgrawn The Clerk a Clerk and Councils Direct.

**Ben Lake AS**

Llythyr gan Ben Lake AS a phoster yn nodi manylion cymorthfeydd a sut i wneud apwyntiad. Dosbarthwyd y rhain i'r aelodau er mwyn eu harddangos yn eu hardaloedd.

**Chwarae Cymru**

Cafwyd cylchgrawn ac fe'i trosglwyddwyd i'r Ganolfan Deuluoedd gan Gyng Abby Reid.

**7 Cynllunio**:

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 12 Chwefror 2020.

**Cyfarfod**
Cynhelir Cyfarfod mis Ebrill y Cyngor Cymuned ar 20/04/2020 oherwydd bod 13/04/2020 yn Llun y Pasg.

8) Gwybodaeth Ariannol

**Anfonebau:-**

Swyddfa Archwilio Cymru – Cafwyd anfoneb am y swm o £280.75, sef ffi Archwilio 2018/19, a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £152.75 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Ionawr, a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Ron Foulkes – Ysgrifennwyd siec am y swm o £150 am y Ffi Archwilio gan nad oedd siec 000769 wedi cyrraedd y cyfarfod blaenorol, a dylai fod wedi bod am £100. Ysgrifennwyd siec am y swm o £100 i ddisodli siec 000769 ond roedd y siec o £150, 000829, yn ddyledus am 3 cyfnod o Gyfrifon wedi'u Harchwilio ym mis Mehefin, Medi a Rhagfyr, yr oedd wedi'u gwneud.

**Ben Lake MP**

Letter from Ben Lake MP with a poster informing of advice surgeries and how to make an appointment. These were distributed to members for displaying in their areas.

**Play for Wales**

Magazine was received and passed on to the Family Centre from Cllr Abby Reid.

**7 Planning**:

Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 12th February 2020 was received.

**Meeting**
The April Meeting of the Community Council would be held on 20/04/2020 as the 13/04/2020 would be Easter Monday.

8) Financial Information

**Invoices:-**

Wales Audit Office – Invoice for 2018/19 Audit fee was received for £280.75 and passed for payment.

Llinos Jones – Invoice for January translation services for £152.75 was received and passed for payment.

Ron Foulkes – Cheque was written for Audit Fees for £150 as cheque 000769 had not been received in previous meeting and should have been for £100. A cheque for £100 was written to replace cheque 000769 but the cheque for £150 cheque 000829 was owing for 3 periods of Audited Accounts in June, September and December that he had done.

**Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:**

Gorchmynnwyd ac i’w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

| | | £ c/£ p | |
|---|---|---|---|
| Wales Audit Office | Awdit/Audit | 280.75 | 000835 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 152.75 | 000836 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 455.87 | 000837 |
| Nia Davies | HMRC | 113.96 | 000838 |
| Nia Davies | Rhyngrwyd/Broadband | 105.00 | 000839 |
| Ron Foulkes | Awdit/Audit | 100.00 | 000840 |
| Llandysul Paddlers | Rhodd/Donation | 2000.00 | 000841 |